SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

# Caethwasiaeth Modern

## Beth yw Caethwasiaeth Modern?

Gwaharddwyd caethwasiaeth yn y DU dros 200 mlynedd yn ôl ond er hynny mae'n dal i ddigwydd heddiw gyda throseddwyr yn trin pobl fel nwyddau.

Mae caethwasiaeth modern yn drosedd cymhleth sy'n cwmpasu sawl math o ecsbloetio ( gyda sawl gwahanol fath yn digwydd ar yr un pryd).

## Ar ba ffurf all caethwasiaeth modern ddigwydd?

Gall gynnwys , ond nid yw'n gyfyngedig i:-



- Ecsbloetio rhywiol
- Llafur gorfodol
- Ecsbloetio troseddol
- Ecsbloetio plant
- Caethwasanaeth domestig
- Mathau eraill o ecsbloetio (e.e. dwyn organau, twyll budd-dal gorfodol, cardota gorfodol, priodasau dan orfod a mabwysiadu plant yn anghyfreithlon)

## Beth yw arwyddion caethwasiaeth modern?



### *Pobl*

Gall dioddefwyr fod o unrhyw oed, rhyw, hil neu genedligrwydd.

Yn aml ni fydd ganddynt fynediad i ofal meddygol ac o bosibl bydd ganddynt anafiadau heb eu trin.

Efallai y bydd dioddefwyr yn edrych yn llwglyd, yn denau ac yn flêr, yn dawel ac/neu yn ofnus. Fe allent fod yn amharod i ateb cwestiynau ac i siarad drostynt eu hunain – bydd trydydd parti'n siarad drostyn nhw.

Mae'n bosibl y byddant yn amheus o bobl mewn awdurdod ac ofn cael eu symud

O ran plant, efallai y bydd eu rhiant neu eu gwarcheidwad cyfreithiol yn absennol. Efallai y bydd y berthynas rhwng y plentyn a'r oedolyn sy'n gofalu amdanynt yn un wael a'r plentyn o bosibl ddim wedi'i gofrestru â Meddyg Teulu nac ysgol.

### *Llefydd*

Gallai'r canlynol fod yn nodweddion amlwg mewn eiddo lle bydd dioddefwyr yn cael eu cadw;

- barrau ar y ffenestri, neu ochr i mewn y ffenestri wedi'u gorchuddio drwy'r adeg
- ffenestri gyda ffilm adlewyrchol drostynt
- TCC wedi'i osod
- Blwch llythyrau wedi'i selio
- Dim mynediad i ystafelloedd cefn yr adeilad
- Gormod o bobl yn byw yn yr eiddo

### *Busnes*

- Yn aml iawn ni fydd gan y gweithwyr ddillad addas ar gyfer y gwaith maen nhw'n ei wneud
- Fyddan nhw ddim yn edrych yn lân iawn
- Byddant ofn ymwneud â'r cyhoedd
- Bydd plant yn bresennol yn y gweithle

## Beth ddylech ei wneud os oes 'da chi'n amheus?

Mae aelodau o gangiau masnachu pobl yn droseddwyr hynod o beryglus. **PEIDIWCH BYTH** a gwneud unrhyw beth a allai eich rhoi chi neu bobl eraill mewn perygl.

IOs oes gennych chi amheuon bod rhywun yn cael eu trin fel caethwas modern neu am fusnes lle mae pobl yn cael eu gorfodi i weithio, ffoniwch **Heddlu Gogledd Cymru** neu un o'r sefydliadau a restrir isod:

Nid oes raid i chi roi eich enw ond mae'n bwysig eich bod yn riportio unrhyw beth amheus.

**Heddlu Gogledd Cymru**
**999 (brys)**
**101 (difrys)**

**Crimestoppers**
**0800 555 111**

**Llinell Gymorth Caethwasiaeth Modern**
**0800 0121700**

**BAWSO**
**0800 7318147**

**NSPCC**
**0808 8005000**

75437